# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanycil
Nos Fawrth, Mai 12fed 206 am 8.00 o'r gloch yn
Neuadd Maesywaen.

Presennol: Rhys Richards (cadeirydd), Huw Charles, Gwynfryn Williams, Rhys Jones, Arwel Davies, Euros Puw, Cyng.Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Geraint Jones a Geraint Thomas.

**i) Croesawyd y cynghorwyr i'r cyfarfod.**

ii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau:-
Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.

Cwmni Pum Plwy Penllyn: Arwel Davies a cytunwyd i ofyn i Geraint Thomas gynrychioli'r Cyngor hefyd.
Gorff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel: Rhys Jones.
Fforwm Adfywio Y Bala a Phenllyn – Arwel Davies a Euros Puw
Cyfarfodydd Lleol yr Heddlu – Arwel Davies a Rhys Richards

iv) Adroddiad Blynyddol y Cyngor – **cymeradwywyd.**

v) Cyfrifon 2025-26 - **cymeradwywyd**

vi) Archwiliad Blynyddol y Cyngor – **roedd trefniadau mewn lle i anfon y dogfennau perthnasol i'r archwilwyr mewnol ac yn ddiweddarach i Archwilio Cymru.**

vii) Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2026/27 - **cofnodwyd y llythyrau a dderbyniwyd gan y cynghorwyr yn cadarnhau nad oeddynt am hawlio'r cydnabyddiaethau ariannol gorfodol.**

viii) Adolygu Asedau – **adolygwyd y rhestr a chafwyd yn gywir. Cadarnhaodd fod y llochesi bws wedi cael ei archwilio ac nid oedd unrhyw fater i'w drafod.**

ix) Adolygu Polisïau a Rheoliadau'r Cyngor –**Adolygwyd a chafwyd yn gywir.**